Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Bodafon**
**Ffordd Bodafon**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 3BA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bodafon yn nhref arfordirol Llandudno. Mae’r ysgol yn gwasanaethu Bywoliaeth Reithorol Rhos-Cystennin ac fe’i cynhelir gan awdurdod lleol Conwy. Nid yw’r ardal y mae’r ysgol yn ei gwasanaethu yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae’r disgyblion sy’n dod i mewn yn flynyddol yn cwmpasu’r ystod gallu llawn.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 111 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 13 o ddisgyblion sy’n mynychu’r feithrinfa yn rhan-amser. Daw bron pob un o’r disgyblion o gartrefi Saesneg. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gartrefi sy’n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Ar hyn o bryd, mae gan 9% o’r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a’r cyfartaledd cenedlaethol. Nododd yr ysgol fod gan 23% o’i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn fymryn yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Ychydig iawn o ddisgyblion y mae’r ysgol wedi’u gwahardd dros y ddwy flynedd diwethaf.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2012. Yn ychwanegol at y pennaeth, mae un athro amser llawn a phum athro rhan-amser yn yr ysgol.

Mae’r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Bodafon yn 2012-2013 yn golygu mai’r gyllideb yw £3,579 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £12,262 a’r lleiafswm yw £3,081. Mae Ysgol Bodafon yn safle 50 o’r 60 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- bod bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, maent yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda at ddysgu;
- bod y rhan fwyaf o'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn llawn cymhelliant a bod eu diddordeb yn cael ei gynnal;
- bod darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles, ac mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu diogel a chefnogol; a
- bod ystod dda o bartneriaethau yn cael effaith fuddiol ar gyflawniad disgyblion.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2 wedi dirywio yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac nid yw'n cymharu'n dda â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill;
- nid yw mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd o ran datblygu ysgrifennu estynedig eu disgyblion na'u medrau iaith Gymraeg;
- nid yw gweithgareddau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn herio'r disgyblion mwy galluog yn ddigon da; a
- megis dechrau cael ei ddatblygu y mae ymglymiad y disgyblion wrth asesu eu gwaith eu hunain ac wrth osod targedau ar gyfer gwella.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella digonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar les y disgyblion ac ar wella safonau;
- mae'r pennaeth, mewn cyfnod byr, wedi llwyddo i ddod i adnabod yr ysgol yn drylwyr;
- mae ymrwymiad gan yr holl staff i wella'r ysgol; ac
- mae'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg.

Fodd bynnag:

- hyd yn hyn, nid yw'r gwelliannau wedi cael digon o amser eto i effeithio'n llawn ar safonau yng nghyfnod allweddol 2;

- nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn defnyddio digon o dystiolaeth uniongyrchol, yn enwedig mewn perthynas â'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni;
- nid yw'r meini prawf llwyddo yn y cynllun datblygu ysgol yn ddigon penodol na mesuradwy; ac
- megis dechrau cael ei datblygu y mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrrifennu estynedig y disgyblion ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A2 Codi safonau mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio'r disgyblion mwy galluog yn briodol

A4 Cynnig mwy o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A5 Sicrhau bod trefniadau hunanarfarnu wedi'u seilio ar ystod ehangach o dystiolaeth uniongyrchol, gyda ffocws penodol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni

A6 Sicrhau bod targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn benodol a mesuradwy

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â safonau tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o oed tebyg. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw'r disgyblion gallu uwch yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddysgu gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn parchu barnau eu cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn gofyn cwestiynau'n hyderus ac yn ymateb yn dda i gwestiynau athrawon. Yn gyffredinol, maent yn cymhwyso'u medrau yn dda i sefyllfaoedd newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn glir ac yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o eirfa i fynegi'u hunain yn dda. Yn gyffredinol, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad yn hyderus mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd.

Mae safonau darllen yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn dda ar draws yr ysgol. Mae gwybodaeth dda am seiniau llythrennau gan y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, ac maent yn dechrau defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Maent yn mwynhau archwilio llyfrau a gwrando ar storïau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda mynegiant da. Maent yn siarad yn eiddgar am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu heb fod yn eu hoffi, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad storïau. Yn gyffredinol, maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol i dasgau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu gallu i ddod o hyd i gyfeirlyfrau a'u defnyddio'n annibynnol i gasglu gwybodaeth i gefnogi'u dysgu mewn pynciau gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu cynnar, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2 mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd mewn brawddegau llawn a chan atalnodi'n gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n dda mewn ymateb i dasgau iaith penodol. O ran y disgyblion mwy galluog, maent yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ddulliau, ac mae eu hysgrifennu'n feddylgar ac yn llawn dychymyg yn aml. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sy'n cyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n ddigonol i gynhyrchu darnau o waith estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau yn y Gymraeg. Maent yn cyflawni'n dda yn eu gwersi strwythuredig, ac yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfarchion a chyfarwyddiadau cyffredinol mewn gwersi eraill. Er bod mwyafrif y disgyblion yng

nghyfnod allweddol 2 yn ymateb yn dda mewn gwersi Cymraeg, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd o ran datblygu'u medrau iaith Gymraeg.  Cyfyngedig yw eu gallu i ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r gwersi hyn.

Yn 2012, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol ar y cyd, yn is na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.  Hefyd, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) yn is na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd wedi bod gerllaw neu'n uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.  Mae cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg wedi dirywio yn y ddwy flynedd diwethaf, ac roedd ymhlith yr isaf yn y teulu yn 2012.  Yn sgil perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd, roedd ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Er bod perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Saesneg wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% uchaf yn gyson yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad cymharol bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig; fodd bynnag, fe wnaeth merched berfformio'n gyson well na bechgyn ar y lefel uwch mewn Saesneg.

**Lles:  Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel a bod cymorth da iddynt gan y staff.  Maent yn hyderus y bydd y staff yn ymdrin ag unrhyw bryderon o ddifrif ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac yn deg.  Mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac adeiladol tuag at fabwysiadu ffyrdd iach o fyw.  Mae llawer ohonynt yn awyddus i gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau chwaraeon yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu.  Maent yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a gweithgareddau.  Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n dda yn annibynnol a dan gyfarwyddyd oedolion.  Mae cyfranogi'n fwy mewn asesu, cytuno meini prawf llwyddo a gosod targedau personol, yn helpu disgyblion i gael dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau.  Fodd bynnag, ychydig ohonynt sydd â dealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae eu safonau ymddygiad yn dda.  Mae disgyblion o bob oed yn chwarae'n hapus â'i gilydd amser egwyl ac yn ystod yr egwyl ginio.  Maent bron i gyd yn foesgar ac yn gwrtais wrth ymwelwyr.

Mae lefelau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos tuedd am i fyny, ac mae ffigurau presenoldeb am y ddwy flynedd diwethaf yn uwch na'r ffigurau ar gyfer ysgolion tebyg. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd, drwy gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco, i gyfrannu at benderfyniadau yn yr ysgol. Teimlant fod staff yn gwerthfawrogi'u barnau a'u bod yn gwrando arnynt. Mae'r disgyblion yn falch iawn eu bod wedi cael eu cynnwys wrth benodi'r pennaeth newydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu at weithgareddau mewn eglwysi lleol ac yn y gymuned. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu amrywiol a pherthnasol sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r profiadau a'r gweithgareddau ysgogol a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau ymgysylltiad gweithredol pob un o'r disgyblion bron. Mae gweithgareddau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion, gan eu galluogi i adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau a gynllunnir yn herio'r disgyblion mwy galluog yn ddigon da bob amser. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion wedi'i chynllunio'n dda.

Mae gwelliannau diweddar wedi sicrhau mwy o ffocws ar wella medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion. Cyfyngedig, fodd bynnag, yw datblygiad ysgrifennu estynedig y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig ac i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol. Hefyd, mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau hyn i hyrwyddo defnydd annibynnol y disgyblion o'r iaith y tu allan i wersi Cymraeg.

Mae darpariaeth dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o lawer o agweddau ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae ansawdd uchel iawn i'r ddarpariaeth i'w helpu nhw i ddeall sut mae pobl yn byw mewn gwledydd eraill, yn enwedig Affrica ac India. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda iawn o'r rôl y maen nhw a phobl eraill yn ei chwarae yn y gymdeithas a'r byd.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn llawn cymhelliant a diddordeb, a'u bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r berthynas rhwng oedolion a disgyblion yn sicrhau awyrgylch tawel a phwrpasol. Mae gwybodaeth bynciol berthnasol gan bob un o'r athrawon, ac yn gyffredinol maent yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i ysgogi diddordeb disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae disgwyliadau uchel gan yr athrawon o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni. Maent yn cynllunio ac yn cynnig profiadau dysgu ysgogol ac yn addasu gwaith yn llwyddiannus yn ôl galluoedd ac anghenion y disgyblion. Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn rhagorol, gwneir defnydd rhagorol o adnoddau ymarferol penodol a dulliau addysgu cyffrous sy'n dal diddordeb pob un o'r disgyblion yn llawn. Yn yr ychydig o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r amcanion dysgu yn glir, mae cyflymder y dysgu yn rhy araf ac nid yw'r tasgau dysgu yn herio disgyblion o bob gallu yn ddigon da.

Mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion unigol a grwpiau bach o ddisgyblion yn dda. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddysgu'r disgyblion, ac yn benodol, o ran helpu disgyblion i oresgyn anawsterau darllen.

Mae dulliau asesu priodol gan yr ysgol sy'n rhoi tystiolaeth glir i'r staff o'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Yn ystod gwersi, mae'r athrawon yn rhoi adborth llafar addas i'r disgyblion. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae'r sylwadau yn gefnogol, ac yn yr enghreifftiau gorau, maent yn helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae cyfranogiad y disgyblion wrth asesu eu gwaith eu hunain ac wrth osod targedau ar gyfer gwella.

Mae cofnodion o gynnydd disgyblion yn glir ac mae'r athrawon yn eu defnyddio'n dda i nodi'r angen am gymorth ychwanegol. Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion lleol eraill i gryfhau dealltwriaeth yr athrawon o lefelau cyrhaeddiad. Mae adroddiadau i rieni'n bodloni'r gofynion. Fodd bynnag, mae ychydig o rieni yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth yn gyson am gyflawniadau a chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi iechyd a lles y disgyblion ac i sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn rhoi polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer sicrhau ymddygiad da, ac ar gyfer delio'n gyson â materion fel bwlio.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus â gwasanaethau fel y therapyddion lleferydd ac iaith, a'r seicolegydd addysg, ac mae'n sicrhau bod help, cymorth ac arweiniad ar gael i'r staff a'r disgyblion pan fo angen. Bydd swyddog cyswllt yr heddlu yn ymweld â'r ysgol bob tymor i siarad â'r plant am amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar eu diogelwch a'u lles, gan gynnwys diogelwch y rhyngrwyd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun unrhyw bryder.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu nodi'n gynnar gan yr ysgol, ac mae'n rhoi cymorth wedi'i dargedu ac wedi'i gynllunio'n dda iddynt. Mae'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ag anghenion penodol yn arbennig o effeithiol o ran galluogi'r disgyblion hyn i gael cyfle i ddilyn holl feysydd y cwricwlwm yn llawn. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn diwallu'u hanghenion yn dda. Mae trefniadau priodol ar waith i roi gwybodaeth yn gyson i rieni a'u cynnwys.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn amgylchedd hapus a threfnus lle mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n dawel ac yn groesawgar, ac mae'n cynnig amgylchedd dysgu diogel a chefnogol i'r disgyblion. Caiff pob un o'r disgyblion fynediad cyfartal i holl feysydd cwricwlwm yr ysgol. Rhoddir pwyslais clir ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn sicrhau nad yw'r disgyblion ag anableddau yn cael triniaeth lai ffafriol o gymharu â disgyblion eraill.

Mae adnoddau da gan yr ysgol a gall disgyblion ddefnyddio llyfrau o ansawdd da o'r llyfrgell a chyfrifiaduron. Gwneir defnydd da o gyfleusterau lleol i ehangu cyfleoedd ar gyfer addysg gorfforol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ym mhob dosbarth. Mae arddangosfeydd lliwgar o waith a chyflawniadau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth, coridorau a mannau cymunedol yn helpu i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol. Cyfyngedig yw'r gofod sydd ar gael ar gyfer addysgu arbenigol i grwpiau o ddisgyblion. Mae'r diffyg gofod hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i athrawon wneud gwaith cynllunio, paratoi ac asesu er mwyn cynllunio ar y cyd.

Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth sydd newydd ei benodi weledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar les y disgyblion ac ar wella safonau. Mae wedi cyflwyno ystod briodol o bolisïau a strategaethau sy'n dechrau symud yr ysgol yn ei blaen. Nid yw'r strategaethau hyn wedi cael amser eto i effeithio ar godi safonau'r disgyblion, fodd bynnag. Mae'r pennaeth yn datblygu ethos tîm da trwy gynnwys pob aelod o staff wrth wneud penderfyniadau. Yn ddiweddar, aeth ati i adolygu a diwygio swydd-ddisgrifiadau'r athrawon, ac mae'r rhain erbyn hyn yn adlewyrchu rôl a chyfrifoldebau'r unigolyn yn fwy cywir. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei datblygu y mae arweinyddiaeth ddirprwyedig. Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd rheolwyr a chyfarfodydd staff rheolaidd sy'n canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau presennol yr ysgol a chamau gweithredu cytûn.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae ganddo ddealltwriaeth gynyddol o'i rôl yn herio'r ysgol ac yn ei dwyn i gyfrif ynglŷn â'r safonau y mae'n eu cyflawni. Mae'r llywodraethwyr y n dechrau defnyddio data mewn modd mwy ystyrlon. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o berfformiad yr ysgol mewn perthynas â pherfformiad ysgolion tebyg eraill.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd wrth graidd ei chynllun gwella. Mae gweithredu'r Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o hunanarfarnu sy'n dechrau adeiladu'n briodol ar dystiolaeth uniongyrchol. Gwneir defnydd da o ddata am berfformiad i nodi meysydd i'w gwella. Megis dechrau cael ei datblygu y mae proses fonitro'r addysgu a chraffu ar lyfrau'r disgyblion, ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau y mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

Mae uwch reolwyr yn defnyddio canlyniadau'r prosesau hunanarfarnu yn dda i bennu targedau ar gyfer gwella. Mae'r targedau hyn yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi camau gweithredu clir ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau hyn, ac mae'n nodi pwy sy'n gyfrifol am fodloni'r targedau a dyrannu adnoddau angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau disgwyliedig yn ddigon penodol na meintiol, ac o ganlyniad, nid yw'n hawdd i arweinwyr adolygu cynnydd.

Mae athrawon yn cymryd rhan weithredol mewn nifer o gymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt. Mae cydweithredu gydag ymghynghorydd yr awdurdod lleol wedi gwella'r addysgu a'r dysgu mewn gwyddoniaeth. Mae staff y Cyfnod Sylfaen wedi gweithio'n dda â'i gilydd i gyflwyno rhaglen ffoneg, ac mae eisoes yn gwella safonau'r disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu cynnar.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Caiff rhieni ac aelodau'r gymuned leol eu hannog i ddod i mewn i'r ysgol i gefnogi'r dysgu, yn enwedig gwrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae'r rhieni'n codi cryn dipyn o arian i wella adnoddau'r ysgol. Mae hyn wedi galluogi prynu adnoddau TGCh ac offer awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Ceir cysylltiadau da gyda'r eglwys, y gymuned a sefydliadau gwirfoddol, ac mae'r partneriaethau hyn yn galluogi disgyblion i gyfrannu mewn modd cadarnhaol at eu cymuned.

Mae cysylltiadau priodol gyda nifer o leoliadau cyn-ysgol yn helpu sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae trefniadau effeithiol ar waith pan fydd disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol. Mae perthynas weithio dda gyda'r ysgol uwchradd a'r ysgolion clwstwr lleol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i safoni asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ac i rannu arfer dda.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu staff, ac i helpu codi safonau'r disgyblion. Mae'r bartneriaeth hon wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig mewn gwyddoniaeth a TGCh.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae niferoedd digonol o athrawon a staff cymorth gan yr ysgol, a chânt eu defnyddio'n briodol yn yr ysgol. Cyflwynwyd trefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer athrawon. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith ar addysgu a

dysgu. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon yn cyfyngu ar gyfleoedd i staff gynllunio gyda'i gilydd.

Caiff adnoddau o ansawdd da eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda, ac mae cyswllt clir rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gwariant diweddar ar offer TGCh wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd da o ddarllenyddion electronig pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau asesu cyfoedion.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012, roedd canran y disgyblion yn cyflawni dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen (disgyblion yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ar y cyd, yn is na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.

O gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol o ran y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch, yn y 25% isaf ar gyfer dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Roedd yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol, ond yn y 50% isaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni deilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru mewn datblygiad mathemategol. Roedd yn is na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn medrau personol a chymdeithasol.

Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf data'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ddata ar dueddiadau ar gael.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod gerllaw neu'n uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru dros y pedair blynedd diwethaf. Mae cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg a mathemateg wedi dirywio yn y ddwy flynedd diwethaf, ac roedd ymhlith yr isaf yn y teulu yn 2012.

Yn sgil perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd, roedd ymhlith y 50% isaf o ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol wedi bod yn y 25% uchaf yn y ddwy flynedd flaenorol.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) ym mhob un o'r tri phwnc craidd yn uwch na chyfartaledd Cymru, a'r ganran oedd yr uchaf yn y teulu. Fe wnaeth perfformiad yr ysgol ar y lefel hon ei gosod yn y 25% uchaf o ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Er bod perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Saesneg wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% uchaf yn gyson yn ystod y cyfnod hwn.

Mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ar y cyd wedi bod yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru dros y pedair blynedd diwethaf.

Nid oes unrhyw batrwm cyson ym mherfformiad cymharol bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth dros y pedair blynedd diwethaf. Mewn Saesneg, er nad oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol ar y lefel ddisgwyliedig, fe wnaeth merched berfformio'n gyson well na bechgyn ar y lefel uwch.

Nid oes unrhyw batrwm cyson ychwaith ym mherfformiad disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu â pherfformiad disgyblion heb yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwyd yr holiadur gan 27 o rieni neu ofalwyr. Mae'r lefelau boddhad cyffredinol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed pob un o'r rhieni bron fod eu plant yn hoffi'r ysgol, ac mae pob un ohonynt yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yno. Mae bron pawb yn cytuno bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu wrth ymuno â'r ysgol. Dywed pob un bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plentyn i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Cred y rhan fwyaf o rieni fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw ychydig o rieni'n teimlo eu bod yn cael gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plentyn. Mae pob un o'r rheini o'r farn fod ymddygiad yn dda.

Cred pob un o'r rhieni fod yr addysgu yn dda; fodd bynnag, nid yw ychydig o'r farn fod yr athrawon yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau / gorau. Cred pob un bron fod yr athrawon yn helpu eu plentyn i ddatblygu'n fwy aeddfed ac i gymryd cyfrifoldeb, a dywed y rhan fwyaf a ymatebodd fod y plant yn cael eu paratoi'n dda i symud i'r ysgol uwchradd. Er bod llawer o rieni'n cytuno bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol, nid yw ychydig o'r farn fod eu plentyn yn cael digon o gymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Cred bron pob un bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau. Mae llawer o rieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda; fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf a ymatebodd yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, ni fyddai ychydig yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd i'r ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiadur gan 52 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Roedd yr ymatebion i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau gerllaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed llawer o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol; nid yw ychydig ohonynt, fodd bynnag, yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae pawb yn cytuno eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni. Mae pob

un o'r disgyblion yn dweud bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn iach, ac mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd iddynt fod yn weithgar yn gorfforol.

Mae pob un o'r disgyblion bron yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda, ac yn credu bod yr athrawon a'r staff cymorth yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Dywed pawb bron eu bod yn gwybod beth i wneud a phwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae llawer o'r farn fod gwaith cartref yn eu helpu i wella'u gwaith yn yr ysgol. Cred pawb bron bod digon o adnoddau ar gael i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod y plant yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser egwyl, ond nid yw ychydig yn cytuno bod pob plentyn yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Kerry Jones | Arolygydd Lleyg |
| Paul Noon | Arolygydd Cymheiriaid |
| Trystan Lloyd-Owen | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.